Iceland Foods Charitable Foundation

50 MLYNEDD O RODDI

Tarsem Dhaliwal
Ymddiriedolwr Sefydliad Elusennol Iceland Foods a Phrif Swyddog Gweithredol Iceland Foods

"Mae'n destun rhyfeddod i mi bob amser sut mae ein cydweithwyr, ein cwsmeriaid a'n cyflenwyr yn cefnogi ac yn hyrwyddo pob un o'n helusennau dewisedig. Mae eu hymdrechion enfawr wedi galluogi i IFCF roi miliynau o bunnoedd i'r elusennau hynny sy'n agos at ein calonnau i gyd.

Mae bod yn Ymddiriedolwr i'r Sefydliad yn rhoi teimlad enfawr o falchder i mi, ac wrth i bawb barhau i'n cefnogi gall IFCF barhau i wneud gwahaniaeth anghymesur i fywydau pobl."

Richard Walker
Ymddiriedolwr Sefydliad Elusennol Iceland Foods a Rheolwr-gyfarwyddwr Iceland Foods

"Rwy'n falch tu hwnt o egni ac ymroddiad ein cydweithwyr sydd wedi ein galluogi i gefnogi pobl mewn cymunedau lleol, talu am ymchwil meddygol sy'n torri tir newydd a gweithredu i ymdrin â rhai o broblemau amgylcheddol mwyaf y blaned. Mae IFCF yn fwy na dim ond sefydliad corfforaethol; mae'n gymuned o fwy na 28,000 o ymgyrchwyr, codwyr arian ac ymgyrchwyr brwdfrydig, sy'n digwydd gweithio i Iceland, sy'n credu yn IFCF ac yn ei gefnogi i'w helpu i wneud y byd yn lle gwell."

Croeso'r Ymddiriedolwyr

Mae hon wedi bod yn flwyddyn hynod o gofiadwy i Iceland. Ar 18 Tachwedd 2020 cawsom 50fed pen-blwydd y busnes, sydd wedi tyfu o fod yn un siop yng Nghroesoswallt i fod yn fil bron iawn yn y DU yn unig. Yr un mor bwysig â hynny, deufis cyn ein pen-blwydd, llwyddais i a'n Prif Swyddog Gweithredol a'm cyd-ymddiriedolwr Tarsem Dhaliwal gwblhau pryniant a olygodd bod y cwmni yn ôl yn eiddo i'r teulu oedd yn berchnogion arno ar y cychwyn. Yn anffodus, mae Covid-19 wedi tawelu ein dathliadau ar gyfer y ddau ddigwyddiad yma, ond ein bwriad yw cynnal parti go iawn – a chodi llawer o arian i elusennau – yn 2021.

Mae ethos y teulu – o Wneud Pethau'n Iawn, gofalu am eraill, a thrin pawb fel yr hoffem ni ein hunain gael ein trin – wedi bod wrth wraidd agwedd Iceland ers y diwrnod yr agorodd ein siop gyntaf. Rydym bob amser wedi ceisio helpu pobl mewn angen ac mae codi arian i achosion da pwysig – yn arbennig y rhai lle gallwn ni wneud gwahaniaeth go iawn – wedi bod yn agos iawn at fy nghalon. I'r un graddau, mae'n ymrwymiad ac yn frwdfrydedd y mae ein cydweithwyr ein cwsmeriaid a'n cyflenwyr yn ei arddel i'r un graddau, ac rwy'n ddiolchgar tu hwnt iddyn nhw oll am bopeth y maen nhw wedi helpu ein Sefydliad Elusennol i'w gyflawni dros y blynyddoedd. Cynigiaf fy niolch o'r galon iddyn nhw i gyd.

Rwy'n siŵr y gallaf edrych ymlaen at weld y gefnogaeth hon yn parhau wrth i ni symud i mewn i hanner canrif nesaf Iceland. Ni fydd gwerthoedd ac ethos ein busnes a'n Sefydliad Elusennol yn newid. Mae gan yr holl achosion y mae ein Sefydliad yn eu cefnogi – mewn dementia, ymchwil meddygol arall a'r amgylchedd – botensial enfawr i newid bywydau er gwell, a chredaf ei fod yn bwysicach nag erioed i ni barhau i godi arian a chefnogi'r gwaith gwych y maen nhw'n ei wneud er ein budd ni i gyd. raise money and support the great work that they are doing for the benefit of us all.

Malcolm Walker

Sir Malcolm Walker CBE
Cadeirydd Sefydliad Elusennol Iceland Foods a Chadeirydd Iceland Foods

“Rwyf wrth fy modd yn gweithio i gwmni sy’n gofalu am achosion sy’n bwysig i ni i gyd. Gyda’n gilydd gallwn wneud gwahaniaeth go iawn a helpu i newid y dyfodol i bawb.”

Ein cenhadaeth

Mae ein cenhadaeth yn syml a chlir: **rydym eisiau gwneud bywyd yn well i bawb.** Dyna pam rydyn ni’n cynyddu ymwybyddiaeth a chodi arian i achosion da – ac hefyd am ein bod yn credu’n syml iawn mai dyma’r peth cywir i’w wneud.

Mae’r Sefydliad wedi bodoli ers dyddiau cynnar y busnes am ein bod wedi ymrwymo erioed i godi arian i achosion da. Yn 2013 rhoesom wyneb cyhoeddus i’r Sefydliad er mwyn helpu i gydnabod cyflawniadau ein cydweithwyr a’n cwsmeriaid ac i’w gwneud yn haws i bobl ein cefnogi ni. Dyma’r IFCF rydyn ni’n ei nabod heddiw, yr un y byddwch yn ei weld yn siopau Iceland a The Food Warehouse.

Rydym yn ceisio cefnogi elusennau y gall ein pobl, ein cwsmeriaid a’n cefnogwyr deimlo cysylltiad â nhw, a lle gallwn wneud gwahaniaeth mawr drwy godi ymwybyddiaeth y cyhoedd yn ogystal ag arian. Bob blwyddyn rydyn ni’n dewis cefnogi un prif bartner elusen; yn ogystal â hynny rydyn ni hefyd yn cefnogi achosion da eraill sy’n cael eu henwebu gan ein cydweithwyr yn Iceland a The Food Warehouse.

Ein Heffaith

£1 miliwn i'r Lleng Brydeinig Frenhinol

Hyfforddwyd 28,000 o gydweithwyr yn gyfeillion dementia

£1 miliwn i Petö

Ariannwyd datblygiad yr ymgyrch 'Ysgolion Yn Erbyn Sepsis'

Casglwyd 72 tunnell o wastraff morol – 18,000 o fagiau bin llawn

£3 miliwn i Ysbyty Plant Alder Hey

Rhoddwyd £30 miliwn hyd yn hyn

Rhoddwyd £17 miliwn i elusennau dementia

£1.5 miliwn i Help for Heroes

£1 miliwn i elusen Canser y Brostad

Cynhyrchwyd 600,000 o oriau o Backyard Nature

Gwerthwyd 19 miliwn o gartonau llaeth ar draws y DU sy'n rhoi manylion symptomau sepsis

£1 miliwn i DNRC

Plannwyd 1 miliwn o goed yn Wooi, Indonesia gyda'r Prosiect Eden

Llw £10 miliwn i UCL i sefydlu Sefydliad Ymchwil Dementia y DU

Dementia

Dewch i ni ei guro!

£17 miliwn hyd yma

Mae dementia yn cyffwrdd â llawer ohonom yn ein bywydau, ac mae'n gyflwr trasig sy'n dinistrio bywydau. Ond gyda'r agwedd gywir a digon o arian gallwn wneud diagnosis o ddementia yn gynharach, canfod gwell triniaethau ac hyd yn oed ganfod ffordd o'i wella'n llwyr. Rydym wedi bod yn helpu i guro Dementia ers 2011 ac rydym wedi codi'r swm anhygoel o £17 miliwn hyd yn hyn. Rydym yn bartner cyllido allweddol i Sefydliad Ymchwil Dementia y DU sy'n torri tir newydd yn UCL, rydym yn cefnogi prosiectau ymchwil hanfodol ar draws y DU ac mae ein cydweithwyr i gyd yn cael eu hyfforddi i fod yn Gyfeillion Dementia.

Gyda'n gilydd rydym yn gwneud gwahaniaeth ...

ac rydym ar gyrch i'w guro!

Mae ein Cadeirydd, Syr Malcolm Walker wedi dringo North Col Everest, wedi abseilu i lawr y Shard, wedi ymdeithio tuag at Begwn y De ac wedi ysgrifennu hunangofiant, oll i godi arian i ymchwil dementia.

Canolfan ymchwil dementia blaenllaw'r byd

UK Dementia Research Institute

Rydym wedi rhoi £10 miliwn i helpu i sefydlu Sefydliad Ymchwil Dementia newydd y DU yn UCL, sy'n mynd i agor yn llawn yn 2024.

Hefyd, daethom â rhai o enwau mwyaf y stryd fawr at ei gilydd, gan roi ein gwahaniaethau o'r neilltu a ffurfio Cynghrair Adwerthu Ymchwil Dementia UCL. Trwy roi'r Arian a gafwyd o werthu bagiau cludo 5c, llwyddodd ein partneriaid; Asda, Waitrose, Morrisons, WHSmith, Farmfoods, Booths, Poundland a HSS Hire i ychwanegu £10 miliwn pellach.

"Mae dyngarwch strategol Iceland ei hun, a rôl allweddol Syr Malcolm o ran sefydlu'r Gynghrair Adwerthu, wedi bod yn gatalydd go iawn dros newid ac yn ganolog i alluogi creu hyb Canolfan Ymchwil Dementia y DU."

Michael Arthur
Llywydd a Phrofost UCL

UCL

Bydd y ganolfan ymchwil dementia hon, sy'n arwain y byd, yn gartref i fwy na 500 o ymchwilwyr rhyngwladol, sy'n cydweithio i fynd i'r afael ag un o heriau meddygol mwyaf ein cyfnod.

"Rydym wrth ein boddau am ein partneriaeth â Sefydliad Elusennol Iceland Foods. Ychydig iawn o sefydliadau, os oes rhai o gwbl, sydd wedi dangos cymaint o frwdfrydedd ac ymrwymiad â hwn i roi diwedd ar y tor-calon y mae dementia yn ei achosi."

Ian Wilson
Dirprwy Brif Weithredwr Ymchwil Alzheimer's y DU

Ymchwil Alzheimer's y DU

Rydym wedi gweithio gydag Ymchwil Alzheimer y DU ers 2011.

Mae'r £5 miliwn a godwyd gan ein cydweithwyr a'n cwsmeriaid wedi cefnogi nifer o brosiectau ymchwil hanfodol ar draws y DU, yn cynnwys y prosiect anhygoel 'Brains for Dementia' ym Mhrifysgol Newcastle, menter arall o'r radd flaenaf.

Mae ein cyd-ymgyrchoedd 'elusen y flwyddyn' wedi bod yn llwyddiant enfawr o ran codi arian, ac rydym yn falch iawn hefyd o gefnogi eu gweithgareddau codi ymwybyddiaeth rhagorol, yn cynnwys #ShareTheOrange

Sialens Frank ac Ymchwil Dementia y DU

Mae'n bleser mawr gan Sefydliad Elusennol Iceland Foods gefnogi Frank Rothwell yn Her yr Iwerydd Talisker Whisk yn 2020. Mae Frank yn codi arian i Ymchwil Dementia y DU a bydd IFCF yn cyfrannu swm cyfatebol am y £500,000 cyntaf o roddion a geir. Nod Frank yw codi £1 miliwn i'r elusen – y swm mwyaf a godwyd erioed gan un rhwyfwr yn yr her – ar ôl gweld effaith ofnadwy dementia.

Cyfeillion Dementia

Roeddem yn gweithio fel partneriaid â'r Gymdeithas Alzheimer ac Alzheimer's Scotland o 2017 hyd 2018 a rhoesom gyfanswm o £1.5 miliwn dros ddwy flynedd y bartneriaeth.

Aethom ati i noddi Teithiau Cerdded Cof y Gymdeithas Alzheimer's, lle daeth cyfeilion a theuluoedd at ei gilydd ar draws y wlad i ddangos cefnogaeth i bobl sy'n byw gyda dementia.

Ni yw'r adwerthwr bwyd cyntaf erioed i hyfforddi pob cydweithiwr unigol i fod yn Gyfaill Dementia – dyna 28,000 o bobl!

"Fel Cyfaill Dementia, rwy'n gwir fwynhau helpu cwsmeriaid sy'n gweld bod siopa am fwyd yn mynd yn llethol. Mae'r teimlad fy mod i'n gwneud gwahaniaeth yn wobrwyol iawn."

Caroline
Cydweithiwr siop Cyfaill Dementia, Caer

"Mae Iceland wedi bod yn gefnogwr gwych i'r Gymdeithas Alzheimer's ers blynyddoedd erbyn hyn, gan godi mwy na £1.5 m tuag at ymchwil a gofal dementia yn ystod y cyfnod yr oeddem mewn partneriaeth. Mae Iceland hefyd wedi gweithio'n galed i ddod yn adwerthwr mwy dementia-gyfeillgar, drwy greu 28,000 o Gyfeillion Dementia ymysg eu gweithwyr a chreu arwyddion wrth eu mannau talu i atgoffa pobl i fod yn ystyrlon o bobl sydd efallai â dementia neu sydd wedi eu heffeithio gan ddementia. Mae'r cymorth a'r ymroddiad i'r achos yn rhyfeddol."

Kate Lee
Prif Weithredwr y Gymdeithas Alzheimer's

Yr Amgylchedd

Mae'n bryd arbed y blaned... go iawn

Mae Iceland yn cyflogi mwy na 28,000 o bobl ac mae bron i 80% o'n cydweithwyr siop yn byw o fewn tair milltir i'w gweithle. Maen nhw'n gadael i ni wybod beth sy'n bwysig iddyn nhw a'u cwsmeriaid, ac mae eu cefnogaeth i'r IFCF wedi ein galluogi ni i wneud gwahaniaeth go iawn yn y cymunedau lle'r ydym yn gweithio. Roedd y cydweithwyr yn awyddus i weithio gyda'r Sefydliad i ganfod ffyrdd o helpu teuluoedd i gefnogi ac amddiffyn yr amgylchedd.

Gyda Semble, aethom ati i lansio ymgyrch ysbrydolgar, Backyard Nature, i helpu plant (a'u perthnasau hŷn) i wneud gwahaniaeth go iawn i'r blaned.

Yn ogystal â hynny, trwy ein partneriaeth â Surfers Against Sewage rydym yn parhau i ganolbwyntio ar helpu pobl i ymdrin â'r broblem o lygredd plastig.

"Maen nhw'n bynciau sy'n bwysig inni – y fforest law a phlastig – ac rydym yn falch iawn o'r hyn rydyn ni'n ei wneud. Ond y peth sydd agosaf at ein calonnau yw'r plant yn ein cymdogaethau sy'n cael trafferthion, oherwydd rydyn ni'n eu gweld nhw bob wythnos."

Sally-Ann Morgan,
Cydweithiwr yn Iceland

Backyard Nature

Ymgyrch genedlaethol i blant yw Backyard Nature. Mae'n cael ei ariannu gan IFCF a'i dyfu gan Semble, sefydliad arweiniol y DU dros brosiectau cymunedol ar lawr gwlad.

Ein nod yw cael pob plentyn i dreulio mwy o amser yn mwynhau ac yn amddiffyn natur, yn yr ardal lle maen nhw'n byw. Ysbrydolwyd Backyard Nature gan Eco Emeralds sy'n grŵp o bobl ifanc, dinas fewnol o Anfield, Lerpwl, sy'n frwdfrydig am ddiogelu'r amgylchedd. Nod

Backyard Nature yw ysbrydoli miliwn o oriau o ymwneud â byd natur i blant yn y DU. Mae Backyard Nature yn helpu plant (a'u perthnasau hŷn) i wneud gwahaniaeth go iawn i'r blaned. Sut? Drwy roi'r sgiliau angenrheidiol iddyn nhw i amddiffyn eu darn bach nhw eu hunain o natur – hyd yn oed os ydyn nhw'n byw ynghanol dinas.

Yn ystod ein hymgyrch Backyard Nature gyntaf i 'Achub y Gwenyn' rhoesom ni 330,000 o beli hadau i blant o bob siop Iceland a The Food Warehouse yn y wlad, i blannu 15 miliwn o hadau blodau gwyllt. Yn ein hail ymgyrch 'Love Bugs', rhoddwyd 300,000 o westai trychfilod am ddim i helpu plant i amddiffyn y trychfilod a'r pryfed ar eu darn bach nhw o natur.

Mae IFCF yn Cefnogi Ymgyrch Roddi Peli Hadau Backyard Nature

Ar ITV ar 5 Hydref, 9pm-10.30pm, darlledwyd y rhaglen Prince William: A Planet for Us All, a ddangosodd yr Eco Emeralds a Backyard Nature ar amser poblogaidd iawn o'r dydd i wylwyr teledu.

I ddathlu darllediad y rhaglen ddogfen mae'r mudiad nid-er-elw Project Maya, sy'n rhedeg y cwmni Seedball, yn rhoi 200,000 o beli hadau blodau gwyllt gyda chymorth gan Semble, IFCF a Clarion Futures, sefydliad elusennol Clarion Housing Group. Mae menter Backyard Nature, a gefnogir gan Ei Huchelder Brenhinol Duges Caergrawnt, wedi ei hanelu at grwpiau cymunedol ac ysgolion i roi cyfle i fwy o blant ledled y wlad weithredu i helpu gyda'r argyfwng bioamrywiaeth yn y DU.

Yn gynharach eleni, ymwelodd Ei Uchelder Brenhinol Dug Caergrawnt yn ddirybudd â'r Eco Emeralds, sef grŵp o bobl ifanc sy'n gweithio'n frwdfrydig dros yr amgylchedd ac a ysbrydolodd yr ymgyrch Backyard Nature a ariennir gan Sefydliad Elusennol Iceland Foods (IFCF). Maen nhw i'w gweld yn y rhaglen ddogfen awr a hanner.

"Roedd lansio Backyard Nature yn Haf 2019 yn brofiad a newidiodd ein bywydau. Cawsom ein gwibio draw i Lundain i siarad ar lwyfan â nifer o bobl sy'n brwydro dros yr amgylchedd. Gallech chi glywed pin yn disgyn wrth i ni siarad a gallech weld bod pawb yn gwrando ar ein grŵp.

Hoffwn i'r byd fod yn deg a chael moroedd glas clir. Byd lle mae pawb yn heddychlon. Hoffwn fyd lle mae pobl yn ystyried beth sydd o'u hamgylch a hoffwn fyd lle mae pobl yn gofalu am yr amgylchedd ac yn ysgwyddo'r cyfrifoldeb o fod yn Warcheidwad Backyard Nature."

Elliott Fitzpatrick
Eco Emerald, 11 Oed

Surfers Against Sewage

Diolch i'n partneriaeth â SAS mae degau o filoedd o bobl wedi dod at ei gilydd yn eu cymunedau i gael gwared â llygredd plastig o'n traethau, glannau afonydd, mynyddoedd a strydoedd, yn nigwyddiad glanhau amgylcheddol mwyaf erioed y DU.

Cafwyd y cyntaf o'r ymgyrchoedd Glanhau Traeth Mawr y Gwanwyn: O'r Copa i'r Môr ym mis Ebrill 2019, lle daeth mwy na 45,000 o wirfoddolwyr i ymuno â mwy na 750 o ddigwyddiadau glanhau cymunedau. Gyda'i gilydd, aethon nhw ati i gasglu bron i 72 tunnell o blastig morol, sy'n cyfateb â 18,000 o fagiau bin llawn! Am y tro cyntaf, gweithiodd SAS â The Wave Project i gychwyn 'Sesiynau Glanhau Hygyrch y Traethau' gan ei gwneud yn haws i wirfoddolwyr sydd ag anableddau corfforol a meddyliol gymryd rhan gyda chynorthwywyr hyfforddedig, offer penodol ac amgylchedd mwy cynhwysol.

Roedd IFCF yn falch o noddi Gwobrau Dim Plastig cyntaf erioed y DU ym mis Tachwedd 2019, mewn partneriaeth ag SAS. Roedd y digwyddiad yn anrhydeddu ac yn dathlu'r ymgyrchwyr, mentrwyr, gwirfoddolwyr cymunedol, ymgyrchwyr ifanc a dylanwadwyr anhygoel sy'n chwarae rhan flaenllaw yn y frwydr yn erbyn llygredd plastig. Rydym yn parhau i gefnogi'r gwobrau hyn yn 2020.

"Rydym wrth ein boddau ein bod mewn partneriaeth â Sefydliad Elusennol Iceland Foods i ehangu a dathlu'r mudiad Cymunedau Di-Blastig drwy'r DU i gyd. Gyda'n gilydd byddwn yn grymuso 100,000 o wirfoddolwr cymunedol i fynd i'r afael â'r llygredd plastig a'r sbwriel ar y traethau, llwybrau arfordirol, mynyddoedd, afonydd, ac ardaloedd gwledig a threfol."

Hugo Tagholm
Prif Wethredwr SAS

Prosiect Ailgoedwigo Eden

Eden Reforestation Projects

Trwy weithio gyda Phrosiectau Ailgoedwigo Eden, mae IFCF wedi plannu 1 miliwn o goed i helpu'r amgylchedd a dod â budd i'r gymuned leol.

Mae'r safle gerllaw pentref Wooi, yn un o ddeg pentref yn Rhanbarth Wonawa (poblogaeth 3,153) yn Kepulauan Yapen Regency ar Ynys Yapan yn Rhanbarth Papua o ogledd-ddwyrain Indonesia. Yn y tri degawd diwethaf, mae Indonesia wedi colli mwy na 40% o'i choedwigoedd mangrof, ac mae'r prosiect yn ailgoedwigo ardaloedd mawr o fangrof ar ardaloedd arfordirol Ynys Yapan.

Gyda'i 17,000 o ynysoedd, mae Indonesia yn un o ranbarthau mwyaf bioamrywiol y blaned. Mae'r ynysoedd hyn yn gartref i 12% o famaliaid y byd, 16% o ymlusgiaid ac amffibiaid y byd, 17% o adar y byd a 25% o'i boblogaethau pysgod byd-eang. Mae'r ynysoedd hyn yn cynnwys 135 o'r rhywogaethau mamaliaid sydd dan fygythiad, yn cynnwys Teigr Sumatra, yr Orangutan, Rhinoseros Java ac Eliffantod Sumatra. Trwy blannu coed yn Indonesia, mae IFCF wedi gallu nid yn unig helpu'r amgylchedd, ond hefyd y rhywogaethau sy'n dibynnu arnyn nhw i gael cynefin naturiol.

Mae'r bobl leol yn hanu o linach Papwa ac yn gymuned bysgota ymgynhaliol. Mae pentrefwyr Wooi yn cael eu talu i blannu'r coed a gofalu amdanynt ac mae hyn yn rhoi budd uniongyrchol i'r economi lleol; mae fforest IFCF wedi creu 15,200 o ddiwrnodau o waith gyda thâl. Mae'r gyflogaeth sefydlog a thymor hir yn caniatáu i weithwyr gynilo arian, buddsoddi yn eu cartrefi, cychwyn micro-fentrau i arallgyfeirio eu cyfleoedd am incwm a darparu gofal iechyd i'w teuluoedd.

Mae coedwigoedd cynaliadwy'n helpu i lanhau'r amgylchedd drwy atafaelu CO2. Yn ôl yr amcangyfrif gan Brosiect Eden, mae ailgoedwigo wedi sicrhau atafaelu carbon o goed Mangrof sy'n 12,000 Tunnel/ CO2 y flwyddyn neu 308,000 Tunnell/ CO2 mewn 25 mlynedd.

Sepsis

Gadewch i Ni Rannu'r Neges ac Achub Bywydau

Mae sepsis yn gyflwr sy'n bygwth bywyd ac y mae modd ei atal yn aml iawn. Trwy gydweithio mewn partneriaeth ag Ymddiriedolaeth Sepsis y DU rydym yn codi ymwybyddiaeth hanfodol o symptomau Sepsis drwy ymgyrch arloesol y cartonau llefrith a thrwy ariannu'r rhaglen unigryw 'Ysgolion yn Erbyn Sepsis'.

Mae sepsis yn un o laddwyr mwyaf y byd sy'n gyfrifol am un ymhob pump o'r holl farwolaethau. Mae'n fwy cyffredin na thrawiadau ar y galon a, bob blwyddyn yn y DU, mae sepsis yn effeithio ar 245,000 o bobl, gan ladd 48,000 ohonynt – mwy na chanser y coluddyn, y fron a'r brostad ar y cyd. Ond mae llawer o bobl heb glywed amdano, ac am fod modd trin sepsis os bydd yn cael sylw ar unwaith, mae'n hollbwysig bod mwy o bobl yn gwybod am y symptomau. Trwy greu partneriaeth ag Ymddiriedolaeth Sepsis y DU, gallwn helpu i frwydro yn erbyn y cyflwr hwn sy'n bygwth bywyd, atal marwolaethau diangen a chefnogi'r bobl hynny sy'n cael eu heffeithio gan sepsis.

"Rwy'n hynod o falch o'r gwaith mae IFCF wedi ei wneud i godi ymwybyddiaeth o sepsis, yn arbennig drwy ein negeseuon ar gartonau llefrith a'n cefnogaeth i'r ymgyrch addysg Ysgolion yn erbyn Sepsis. Am fy mod i fy hun wedi gweld effeithiau dinistriol sepsis yn fy nheulu i, rwy'n gwybod mor bwysig yw'r gwaith hwn, ac rwy'n argyhoeddedig y bydd eich cefnogaeth i Ymddiriedolaeth Sepsis y DU yn cael effaith uniongyrchol o ran arbed bywydau. Byddwn i'n dadlau nad oes rheswm mwy darostyngedig ac eto foddhaus am gefnogi unrhyw elusen."

Richard Ewen
Cydweithiwr yn Iceland

Ymwybyddiaeth o Sepsis

Mae'r Sefydliad wedi gweithio gydag Ymddiriedolaeth Sepsis y DU i greu'r ymgyrch 'Ysgolion yn erbyn Sepsis' gyntaf erioed. Mae'r ymgyrch hon sy'n arbed bywydau wedi cynhyrchu adnoddau addysg ar gyfer athrawon Cyfnod Allweddol 2 i'w defnyddio mewn ystafelloedd dosbarth drwy'r DU gyfan.

Rydym wedi addysgu pob un o'r 28,000 o gydweithwyr Iceland am arwyddion a symptomau sepsis drwy roi taflenni atgoffa maint poced i bawb.

Trwy godi ymwybyddiaeth o symptomau sepsis ar ochr 19 miliwn o gartonau llefrith ledled y DU, rydym yn gobeithio rhannu'r neges ac arbed bywydau.

"Gall sepsis daro unrhyw un, gan effeithio'r ifanc a'r hen a phobl oedd yn ffit ac iach cyn cael eu heffeithio. Nid yw'n ddigon i bobl broffesiynol mewn gofal iechyd wybod am sepsis, rydym eisiau i bawb allu adnabod yr arwyddion, yn cynnwys plant, sydd hyd yn oed yn fwy agored i niwed."

Dr Ron Daniels,
Prif Swyddog Gweithredol Ymddiriedolaeth Sepsis y DU

"Mae'r wers ymwybyddiaeth sepsis wedi bod yn llwyddiant ysgubol yn St James. Roedd gan y plant ddiddordeb o'r dechrau hyd y diwedd a mwynhaodd y dosbarth cyfan yn fawr. Gofynnodd llawer ohonynt a allan nhw gael mwy o wersi ar y pwnc! Aethent ati i lunio posteri am y symptomau i edrych amdanynt ac roedden nhw eisiau siarad amdano gyda phlant eraill yn yr ysgol. Gallai codi ymwybyddiaeth am sepsis a'i symptomau ymysg ein disgyblion a'u teuluoedd arbed bywydau drwy olygu bod y cyflwr yn cael ei adnabod a'i drin yn gynnar."

Gill Mangnall,
Pennaeth Ysgol Gynradd Eglwys Loegr St James

Prostate Cancer UK

Cychwynnodd y bartneriaeth yn 2008 pan ddewiswyd yr elusen iechyd dynion, Prostate Cancer UK, i dderbyn yr arian a godwyd drwy Ddiwrnod Golff i Elusen Iceland, sef digwyddiad blynyddol ar galendr godi arian y Sefydliad. Erbyn hyn mae'r bartneriaeth wedi bod yn ei lle ers deng mlynedd ac mae rhodd ddiweddaraf y Sefydliad, sef £137,000, wedi codi'r cyfanswm i £1 miliwn.

Meddai Prif Weithredwr Prostate Cancer UK Angela Culhane: "Mae cyrraedd £1 miliwn yn gyflawniad enfawr. Rydym yn hynod o ddiolchgar i bawb yn Sefydliad Elusennol Iceland Foods sydd wedi helpu i wneud y bartneriaeth hon mor llwyddiannus."

British Lung Foundation

Yn 2019, rhoesom £100k i helpu i sefydlu'r Rhwydwaith Rhagoriaeth IPF (ffibrosis idiopathig yr ysgyfaint) cyntaf, sef rhwydwaith ymchwil cydweithredol sy'n dod ag ymchwilwyr at ei gilydd o amrywiol ddisgyblaethau gwyddonol.

"Mae'n hanfodol buddsoddi mewn ymchwil er mwyn curo'r clefyd hwn a, gyda chefnogaeth Syr Malcolm ac IFCF, gallwn harneisio'r cyfoeth o dalent sydd i'w gael ymysg yr ymchwilwyr sy'n gweithio ar IPF i geisio brysio dynesiad y diwrnod hwnnw lle does neb yn gorfod ei ddioddef bellach."

Ian Jarrod Pennaeth Ymchwil, BLF

Petö UK

Yn yr 1990au cynnar rhoesom £1 miliwn i helpu i adeiladu Sefydliad Cenedlaethol newydd dros Addysg Ddargludol ar gyfer Petö UK, sef elusen flaenllaw sy'n helpu i wella bywydau plant ac oedolion sydd ag anhwylderau echddygol niwrolegol.

Elusen Plant Alder Hey

Rhoesom £3 miliwn i Alder Hey, ysbyty plant mwyaf Ewrop, rhwng 2005 a 2009. Mae'r arian rydyn ni'n ei godi wedi helpu i ddatblygu gwaith meddygol arloesol Alder Hey, i brynu offer hanfodol ac i wella ei gyfleusterau a'i amgylchedd.

Vision 4 Children

Mae Iceland wedi rhoi £45,700 i Vision4Children ers 2013. Mae'r elusen wedi ei seilio yn Alder Hey yn Lerpwl ac mae'n ymroddedig i ymdrin â dallineb a nam ar y golwg mewn plant drwy'r byd i gyd. Mae ein partneriaeth yn parhau gyda nhw hyd 2020.

When You Wish Upon A Star

Mae When You Wish Upon A Star yn elusen genedlaethol sydd wedi'i hymroddi i wireddu dymuniadau i blant sydd â salwch terfynol neu salwch sy'n bygwth eu bywydau. Talodd Iceland am wyliau Winter Wonderland i 50 o deuluoedd yn Center Parcs cyn Nadolig 2015

NYAS (Gwasanaeth Eiriolaeth Ieuenctid Cenedlaethol)

Mae NYAS yn elusen yn y DU sy'n cynnig gwybodaeth, cyngor, eiriolaeth a chynrychiolaeth gyfreithiol i blant, pobl ifanc ac oedolion sy'n agored i niwed. Roedd ein cefnogaeth yn canolbwyntio ar eu Llinell Gymorth Genedlaethol, sy'n galluogi i NYAS ehangu'r tîm sy'n cymryd galwadau ac ymestyn ei oriau agor.

Ymddiriedolaeth Bwyd y Plant

Roedd Ymddiriedolaeth Bwyd y Plant yn bodoli i amddiffyn hawl plant i fwyta'n well ac felly wneud yn well. Roedd ein cefnogaeth wedi'i chanolbwyntio ar addysgu plant mewn gofal maeth a chartrefi preswyl am bwysigrwydd bwyd maethlon a'u helpu i ddatblygu sgiliau coginio.

Help For Heroes

Llwyddon ni i godi'r swm anhygoel o £1.5 million ar gyfer Help For Heroes, ein helusen y flwyddyn yn 2010/11. Yn ogystal â'n hwythnos elusen arferol yn codi arian yn y siopau, cawsom ddawns elusen ragorol i ddathlu pen-blwydd Iceland yn 40 ym mis Tachwedd 2010.

Walking With The Wounded yn Antarctica

Cododd Iceland £60,800 ar gyfer Walking With The Wounded yn 2012/13, i gefnogi eu gwaith yn ail-addysgu ac ail-hyfforddi personél anafedig o'r lluoedd arfog. Ymunodd ein Prif Swyddog Gweithredol, Malcolm Walker, â nifer o filwyr oedd wedi anafu ar Daith Antarctic Iceland yn 2012 i Begwn y De i godi arian i'r achos gwych hwn yn ogystal ag ARUK.

Y Lleng Brydeinig Frenhinol

Yn 2014 buom ni'n dathlu canmlwyddiant y Rhyfel Byd Cyntaf drwy godi £1 miliwn ar gyfer y Lleng Brydeinig Frenhinol. Roedd ein cymorth wedi ei ganolbwyntio'n bennaf ar Ganolfan Battle Back y Lleng Brydeinig Frenhinol, lle mae personél gwasanaethu a anafwyd yn cael cyfle i wella, ac hefyd ar eu gwasanaeth faniau Poppy Calls i gyn-filwyr a'u dibynyddion.

Yn helpu i greu cartrefi i gyn-filwyr

Darparodd Iceland fwyd i'r masnachwyr a weddnewidiodd Canada a New Street i ddarparu cartrefi i gyn-filwyr yn rhan o raglen BBC Un 'DIY SOS: The Big Build Veterans' Special' ym mis Hydref 2015.

Y Ganolfan Adferiad Genedlaethol ac Amddiffyn

Gwnaeth IFCF gyfraniad mawr o £1 miliwn tuag at adeiladu'r Ganolfan Adferiad Genedlaethol ac Amddiffyn (DNRC) yn Stanford Hall yn Swydd Nottingham, sy'n darparu'r cyfleusterau diweddaraf ar gyfer adfer personél lluoedd arfog a anafwyd a'r rheiny a ddaeth yn anabl mewn bywyd sifiliad. Talodd cyfraniad IFCF am yr Ardd Driniaeth Niwrolegol.

Rhoddion mewn Nwyddau

Dros y blynyddoedd mae Iceland Foods wedi cefnogi ein cymunedau'n hael: dyma rai o'n rhoddion diweddar isod:

Iceland yn rhoi 15,000 o fagiau papur i grwpiau cymunedol

Rhoddodd Iceland 15,000 o fagiau papur i grwpiau cymunedol yn Ne Cymru i helpu teuluoedd drwy'r argyfwng Covid-19.

Iceland a The Food Warehouse yn rhoi 3,500 o wyau Pasg i Alder Hey

Fel arwydd bach o ddiolchgarwch i weithwyr y GIG, danfonodd Iceland a The Food Warehouse 3,500 o wyau Pasg i Ysbyty Plant Alder Hey i roi gwên haeddiannol iawn ar wynebau'r staff sy'n rhoi gofal a chefnogaeth achub bywyd i'r plant hynny sydd ei angen fwyaf bob dydd.

Iceland yn gweini mwy na 700 o giniawau Nadolig mewn Siopau Cymunedol ledled y DU

Trwy gydol y flwyddyn, mae Iceland yn rhoi bwyd sydd dros ben i Siopau Cymunedol ar draws y wlad. Ym mis Rhagfyr 2019, darparodd yr adwerthwr ginio Nadolig i fwy na 730 o aelodau o Siop Gymunedol mewn rhai o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yn y DU. Mae popeth, o dyrcïod i bwdinau, yn cael eu rhoi'n rhodd gan yr archfarchnad i sicrhau bod pawb yn cael mwynhau gwledd Nadolig dri chwrs flasus.

Iceland yn rhoi rhewgelloedd i gronfeydd bwyd

Mae Iceland wedi rhoi mwy na 40 o rewgistiau oedd ganddyn nhw dros ben i gronfeydd bwyd a grwpiau cymunedol sy'n darparu cyflenwadau bwyd mewn argyfwng i bobl a effeithiwyd gan y pandemig Covid-19. Trwy Rwydwaith Ymateb Busnes Cenedlaethol BiTC, gweithiodd Iceland gyda gwasanaeth bwyd Brakes a Relief Aid Logistics a ddanfonodd lawer o'r rhewgelloedd i gronfeydd bwyd i fyny ac i lawr y wlad.

"Rydym yn hynod o ddiolchgar am eich rhodd garedig o ddwy rewgell; rydyn ni'n eu defnyddio nhw'n barod ac maen nhw'n helpu i fwydo mwy o bobl yn Medway"
Eric Slater - Gillingham Street Angels

Iceland yn rhoi mins peis i Prostate Cancer UK: Dathliadau Carolau yng Ngolau'r Gannwyll

Rhoddodd Iceland fwy na 900 o fins peis ar gyfer dathliadau Carolau yng Ngolau'r Gannwyll Prostate Cancer UK a gynhaliwyd yn Lerpwl a Llundain.

Diolch yn fawr i'r gwobrau Retail Week am roi'r wobr glodfawr Adwerthwr Cymuned y Flwyddyn i Iceland Foods yn 2018

Diolch

Esiamplau o rai o'r sylwadau calonogol a adawyd ar ein tudalen roddi

"Dw i wedi gweithio gyda dementia am flynyddoedd lawer fel nyrs clinig cof. Mae hwn yn achos teilwng ac mae'n cydnabod y ffaith bod llawer o'r staff yn fy Iceland lleol yn Clacton bob amser yn gyfeillgar a pharod i helpu. Parhewch â'r gwaith da"

Cliff Baker

"Pob lwc bob amser gyda'r holl waith gwych rydych yn ei wneud gyda UCL yn y frwydr yn erbyn Alzheimer's."

Guy Hepplewhite

"Rwy'n ymdrin â dementia bob dydd yn fy ngwaith proffesiynol yn y gwasanaethau argyfwng..clefyd ofnadwy ac mae pob cyfraniad bach yn gallu helpu i gyrraedd y nod o'i guro'n llwyr. Gwaith rhagorol gan Iceland i hyrwyddo hyn o fewn y siop :)"

Danny McDonald

"Diolch yn fawr i chi am eich gwaith caled a'ch cefnogaeth!"

D Green

"Mae dementia wedi cymryd fy mhartner oddi arnaf, gobeithio y bydd modd ei atal rhyw ddiwrnod, dyna pam rwy'n rhoi"

Keith Wade

"Da iawn Iceland! Cwsmer ffyddlon"

Dienw

"Diolch o galon i Iceland. Rydw i gartref gydag amrywiol anableddau. Rwy'n rhoddi er mwyn helpu rhywun arall am fod Iceland wedi fy helpu innau i gael bwyd yn y fflat."

Dienw

Diolch yn fawr am eich cymorth parhaus i elusennau dementia a'r cynnig macrell"

Nancy Lycett

"Rhoesoch chi slot danfon i mi a dw i'n ddiolchgar iawn amdano. Yn bwysicach na hynny, bu farw fy mam a'm brawd o Altzheimer's a hoffwn gymeradwyo eich ymdrechion i godi arian ar gyfer nifer o achosion da. Pob bendith i chi"

Dienw

https://www.justgiving.com/icelandfoodscharitablefdn

Ein rhoddion

Mae'r rhestr isod yn rhoi manylion rhai o'r prif roddion y mae ICFC wedi eu rhoi ers 2004.

Dyddiad	Elusen	Maint
2004/05	Apêl Tsunami DEC	£10,000
2004/05	Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol	£20,000
2005/06	Alder Hey	£48,000
2006/07	Alder Hey	£201,826
2007/08	Alder Hey	£1,012,000
2008/09	Alder Hey	£600,413
2009/10	Alder Hey	£504,609
2009/10	Apêl Marina Dalglish	£5,000
2010/11	Y Ganolfan Cyfiawnder Cymdeithasol	£10,000
2010/11	Rhodd i Cold Climate	£22,414
2010/11	Help For Heroes	£550,000
2010/11	Prostate Cancer UK	£202,000
2010/11	Save the Family	£18,500
2011/12	Ymchwil Alzheimer's y DU	£1,081,439
2011/12	Y Ganolfan Cyfiawnder Cymdeithasol	£25,000
2011/12	Rhodd i Cold Climate	£20,000
2011/12	Gwobr Dug Caeredin	£10,000
2011/12	Help For Heroes	£100,000
2011/12	Tŷ Gobaith	£10,000
2011/12	Prostate Cancer UK	£100,000
2011/12	Save The Family	£27,000
2011/12	Elusennau Llai	£278
2011/12	Ymddiriedolaeth William Wilberforce	£5,000
2012/13	Ymchwil Alzheimer's y DU	£149,277
2012/13	Rhodd i Cold Climate	£360,000
2012/13	Onside	£10,000
2012/13	Prostate Cancer UK	£105,907
2012/13	Save The Family	£1,000
2012/13	Elusennau Llai	£5,950
2012/13	Vision 4 Children	£25,000

Dyddiad	Elusen	Maint
2013/14	Ymchwil Alzheimer's y DU	£1,850,723
2013/14	Prostate Cancer UK	£135,000
2013/14	Elusennau llai	£19,676
2014/15	Y Ganolfan Cyfiawnder Cymdeithasol	£20,000
2014/15	Prostate Cancer UK	£100,000
2014/15	Y Lleng Brydeinig Frenhinol	£1,000,195
2014/15	Elusennau llai	£9,003
2014/15	Vision 4 Children	£20,700
2015/16	Ymchwil Alzheimer's	£70,421
2015/16	Ymddiriedolaeth Bwyd y Plant	£250,000
2015/16	Cŵn Canfod Meddygol	£10,000
2015/16	NSPCC	£10,000
2015/16	NYAS	£250,000
2015/16	Prostate Cancer UK	£50,000
2015/16	Elusennau llai	£4,840
2015/16	The Black Stork Charity - DNRC	£500,000
2015/16	Ymchwil Dementia UCL	£25,000
2015/16	Vision 4 Children	£40,000
2015/16	When You Wish Upon A Star	£100,000
2016/17	Outwound Bound Trust	£25,000
2016/17	Prostate Cancer UK	£20,500
2016/17	Elusennau llai	£11,572
2016/17	Ymchwil Dementia UCL	£3,000,000
2016/17	Vision 4 Children	£30,000
2017/18	Ymchwil Alzheimer's y DU	£150,250
2017/18	Alzheimer's Scotland	£10,000
2017/18	Cymdeithas Alzheimer's	£939,540
2017/18	Clean Up Britain	£15,000
2017/18	Cadw Prydain yn Daclus	£30,000
2017/18	Prostate Cancer UK	£250

Dyddiad	Elusen	Maint
2017/18	Elusennau llai	£9,127
2017/18	The Black Stork Charities - DNRC	£500,000
2017/18	Ymchwil Dementia UCL	£7,000,000
2017/18	Vision 4 Children	£30,000
2017/18	Hosbis Wirral St John's	£10,000
2018/19	A Plastic Planet	£4,000
2018/19	Ymchwil Alzheimer's y DU	£800,805
2018/19	Alzheimer's Scotland	£67,259
2018/19	Cymdeithas Alzheimer's	£555,065
2018/19	Y Ganolfan Cyfiawnder Cymdeithasol	£10,000
2018/19	International Animal Rescue	£20,311
2018/19	Project Dirt (Semble)	£185,000
2018/19	Prostate Cancer	£137,013
2018/19	Elusennau llai	£13,168
2018/19	Surfers Against Sewage	£75,000
2018/19	Ymddiriedolaeth Sepsis y DU	£50,545
2018/19	Ymchwil Dementia UCL	£500,000
2018/19	Vision 4 Children	£40,000
2019/20	Ymchwil Alzheimer's y DU	£600,500
2019/20	Cymdeithas Alzheimer's	£1,000
2019/20	British Lung Foundation	£100,000
2019/20	Clwyd Special Riding Centre	£25,000
2019/20	Project Dirt (Semble)	£95,000
2019/20	Y Sefydliad Brenhinol	£50,000
2019/20	Ymddiriedolaeth Sepsis y DU	£250,000
2019/20	Elusennau Llai	£9,900
2019/20	Vision 4 Children	£30,000
2020/21	Project Dirt (Semble)	£60,000
2020/21	Surfers Against Sewage	£75,000
2020/21	Ymchwil Alzheimer's y DU	£250,000

Dyddiad	Elusen	Maint
2020/21	The Message Trust	£10,000
2020/21	DKMS	£10,000
2020/21	Y Sefydliad Brenhinol	£50,000
2020/21	Ymchwil Alzheimer's y DU	£25,000

IFCF Covid-19 Appeal Donations

Dyddiad	Elusen	Maint
2020/21	Age UK	£150,000
2020/21	Ambiwlans Sant Ioan	£150,000
2020/21	NHS Charities Together	£37,606

Mae Sefydliad Elusennol Iceland Foods yn codi ac yn rhoi oddeutu £1 miliwn y flwyddyn. Mae'r arian ar gyfer y flwyddyn ariannol hon wedi ei chlustnodi'n llwyr yn barod.

Rydym yn derbyn nifer fawr o geisiadau o'r ardaloedd o amgylch ein 970+ o siopau a thrwy ganolbwyntio ar ein helusennau partner dewisedig rydym yn gobeithio cael yr effaith orau y gallwn yn y cymunedau hynny. Yn anffodus, am y rheswm hwnnw, ni allwn ystyried ceisiadau am gymorth gan achosion da eraill.

Ar ôl i chi ddarllen yr uchod, os byddwch yn dal i fod eisiau cysylltu â ni, anfonwch ebost i ifcf@iceland.co.uk

Sefydliad Elusennol Iceland Foods,
Second Avenue,
Parc Diwydiannol Glannau Dyfrdwy,
Glannau Dyfrdwy,
Sir y Fflint
CH5 2NW

Iceland Foods Charitable Foundation

Registered charity no 281943

Gwefan: ifcf.org.uk

E-bost: IFCF@Iceland.co.uk

Ffôn: 01244 830 100

Sefydliad Elusennol Iceland Foods, Rhif Elusen Gofrestredig:281943